
# Mari Huws

## Cerdyn Post Creadigol: Yr Arctig




**Helo Y STAMP o'r gogledd gwyllt,**

Dwi ar hen dir yn hwylio'r hen fôr
a'r hen hen arfordir yn disgwyl.
Ar y gorwel - rhewlif, a'r hen ddŵr o'r hen fyd
yn cario hen furmur ar adain gain y gwynt.
A'r hen haul ar wyneb anwastad
yr hen hen gefnfor
yn ddoe a heddiw a fory yn yr un anadl -
yn llenwi'n enaid.
Ac wrth fy nhraed, yr hen botal eli
a'r hen wadan heb esgid
a'r holl rannau bach o hen bethau
anghofiedig - yn perthyn i nunlla
a pherthyn i neb ond yn perthyn i bawb a bob man ar yr un ennyd.
Y gola fel y gorwel - yn ddibendraw,
a'r gwaddod wrth fy nhraed yn wenwyn.

cariad mawr,

MARI x
(o berfeddion Fjord yn ne Svalbard)

(O.N. Mi fydd yna ffilm, *Arctig: Môr o blastig?* o fy nghyfnod yn Svalbard ar Hansh ym mis Awst)

At olygyddion **Y STAMP**

**yn eu byncer cyfrinachol**
**yng nghyffiniau**

**LLANRHYSTUD**

**Cymru**

**Ewrop**

**Yn y byd a'r bydysawd**





ystamp.cymru
@ystampus
golygyddion.ystamp@gmail.com